PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 19 Mai 5, 2016 50c.

# Diaconiaid Newydd

*O'r chwith i'r dde, gwelir Elwyn Davies, Iwan Llewelyn Jones, Catrin Codd, Tudor Jones, Aled Rees a Buddug Roberts. Gwaetha'r modd nid oedd yn bosib i Cecil Morgan fod yn bresennol oherwydd afiechyd, ac anfonwyd cofion cynhesaf ato.*

Dwy eglwys o dan yr unto a geir yn nhref glan y môr Cricieth bellach. Ers peth amser gwerthwyd capel Jerwsalem yr Annibynwyr, a chyd-addolir yng Nghapel y Traeth - capel y Presbyteriaid. Bydd Eglwys y Traeth yn gyfrifol am drefnu dwy oedfa'r mis a Jerwsalem y ddwy arall, a cheir cynulleidfaoedd teilwng a chynhesol dros ben.

### Ymroddedig

Disgynnodd rhif diaconiaid Jerwsalem i bedwar, a phenderfynwyd yn weddigar i ystyried galw rhagor o ddiaconiaid.

Ymatebodd dwy chwaer i'r alwad - dwy roes flynyddoedd o wasanaeth ymroddedig i'r achos yn Jerwsalem ymhob modd. Magwyd Buddug Roberts ym Mhentrefelin gerllaw a bu ei diweddar ŵr, Dave Roberts, a oedd yn athro ym Mhwllheli, yn drysorydd hynod gydwybodol yn Jerwsalem hyd nes i afiechyd creulon ei gaethiwo yn ŵr ifanc rai blynyddoedd yn ôl. Er mai yng nghylch Abertawe y magwyd Catrin Codd, ymgartrefodd hi a'i theulu yng Nghricieth ers blynyddoedd lawer. Bu ei diweddar dad, Andrew Davies, yn un o ffigyrau amlwg byd addysg yng Nghymru yn y blynyddoedd a fu. Un ffaith ddiddorol yw mai Robert Codd, priod Catrin, ddilynodd y diweddar Dave, priod Buddug fel trysorydd yr eglwys.

### Oedfa Wlithog

Yn yr oedfa ar fore Sul Ebrill 17, a'r gweinidog, Iwan Llewelyn Jones yn arwain yr oedfa yng Nghapel y Traeth, derbyniwyd a chroesawyd hwy i'r ddiaconiaeth, gan ddymuno bendith Pen Mawr yr Eglwys, yr Arglwydd Iesu Grist ar eu gwaith a'u tystiolaeth. Ac wrth gwrs, yn gwbl naturiol, daethom o gwmpas Bwrdd yr Arglwydd. Er mai derbyn diaconiaid newydd i eglwys Jerwsalem yr oeddem, mor hyfryd oedd bod yng nghwmni'n gilydd fel dwy gynulleidfa o ddau enwad, a phawb yn ymdoddi i'w gilydd. Alwena Davies wasanaethodd wrth yr organ ac Aled Rees yn llywyddu.

**Iwan Llewelyn Jones**

# *Penwythnos Prysur PIP*

Criw ffyddlon, bywiog a gweithgar yw criw PIP (Pobol Ifanc Priordy). Diolch amdanynt ac am eu cyfraniad pwysig i fywyd yr eglwys.

### PIP ar daith

Bu'r penwythnos 15-17 Ebrill yn un prysur iawn i griw PIP. Yn union wedi i'r gloch olaf ganu i ddynodi diwedd wythnos arall yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin teithiodd 25 o bobl ifanc Y Priordy i Neuadd y Sir yng Nghaerfyrddin i gwrdd â Chadeirydd presennol Cyngor Sir Gâr, Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths a'i briod Meinir, y ddau ohonynt yn aelodau ffyddlon yng Nghapel Y Priordy.

Ymhlith nifer o bethau diddorol eraill, cafodd y criw iau gyfle i eistedd yn seddau'r Cynghorwyr yn Siambr y Cyngor a bod yn rhan o drafodaeth am waith y Cyngor Sir dan Gadeiryddiaeth Peter Hughes Griffiths. Cytunwyd bod yr ymweliad wedi bod **yn** brofiad gwych i bawb, ac yn gyfle nid yn unig i ddysgu am waith y Cyngor Sir ond hefyd i ddysgu mwy am **ein** cyfrifoldebau ni fel trigolion Sir Gâr **at** fywyd y Sir arbennig hon, ei hiaith a'i diwylliant.

### Oedfa fywiog

Deuddydd yn ddiweddarach ar fore Sul heulog o Ebrill, daeth yr un criw o 25 ynghyd i gynnal oedfa gofiadwy iawn yng Nghapel Y Priordy i gychwyn gweithgareddau '*Blwyddyn y Beibl Byw*' yn ein plith. Cyflwynodd y criw eu gwaith gyda graen a hiwmor a chyda chanu cynulleidfaol bywiog i gyfeiliant y band, roedd neges yr oedfa yn glir gan yr ieuenctid, nad llyfr i'w gadw ar gau ar silff yw'r Beibl, ond cyfrol i'w hagor, ei darllen, ag iddi neges gyfoes i'n hysbrydoli ni heddiw.

Rhannwyd copi o'r llyfryn '*Beth yw'r Beibl* a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyhoeddiadau'r Gair, ynghyd â sticeri a phensiliau *'Blwyddyn y Beibl Byw'* a beibl.net (www.beibl.net) cyn i'r gynulleidfa niferus adael y Capel wedi oedfa fendithiol a llawen gyda geiriau'r emyn olaf yn dal i ganu yn ein clustiau '*Air disglair Duw, dyro d'olau i Gymru heddi…'*.

**Beti Wyn James**

# Cwestiynau ac Atebion y Rhaglen Datblygu

**Ydi'r Rhaglen Datblygu yn parhau?**

Ydi mae'n parhau yn fyw ac yn iach. Yn fyw oherwydd bod cyfle i unrhyw eglwys, gofalaeth neu gyfundeb wneud cais am gymhorthdal, ac yn iach o safbwynt ariannol gan fod digon o arian yn weddill ar hyn o bryd ichi wneud cais.

*Ifan Alun*

**Pa fath o gais?**

Mae ceisiadau'n amrywio, ond rhaid iddynt fod o fewn themâu'r Cynllun Datblygu. O safbwynt eglwysi unigol neu ofalaethau cafwyd:

- Cais i baratoi taflen i'w rhannu i gartrefi ardal arbennig.
- Cais am arian i hybu gweithgaredd ymysg rhieni a phlant bychain i ddod at ei gilydd i gael cân a chlonc ar fore Sadwrn unwaith y mis.
- Cynnal cyfuniad o gwrs 'Alffa' a 'Darganfod Cristnogaeth' i fyfyrwyr yn bennaf ( ond gellid cyflwyno hwn mewn unrhyw eglwys neu ofalaeth).
- Sefydlu clwb Cristnogol i blant 7 – 11 oed.
- Cymorth i sefydlu gwefan i ofalaeth.
- Tybed nad ydi 'Blwyddyn y Beibl Byw' yn cynnig cyfle am brosiect?

**Beth am Gyfundebau?**

Rhaid cydnabod mai bach iawn ydi'r ceisiadau o du'r cyfundebau ond mae ceisiadau wedi dod i law a chael eu derbyn. Mae rhai yn cynnwys ceisiadau hyrwyddo gwaith ieuenctid o fewn cyfundebau. Cafwyd cais hefyd am noddi pabell un cyfundeb mewn sioe amaethyddol. Cafwyd cais arall arbennig gan un cyfundeb oedd yn creu 'Calendr Gweddi Misol.' Gwelwyd adroddiad llawn o'r cynllun hwn yn 'Tyst' Mawrth 3, 2016.

**Faint o arian y gellir gofyn amdano?**

Gall eglwysi neu ofalaethau ofyn am hyd at £1000 a Chyfundeb ofyn am hyd at £3000.

**Sut y gwneir cais?**

Mae'r broses yn ddigon syml. Bydd yn rhaid llenwi ffurflen gais yn nodi manylion y cais. Gofynnir hefyd am ychydig o fanylion am sefyllfa ariannol yr eglwys, gofalaeth neu gyfundeb sy'n gwneud y cais, ond NID yw maint o arian sydd yn y coffrau hynny'n mynd i rwystro unrhyw un rhag derbyn nawdd. Cryfder y cais yn hytrach na swm o arian yn y coffrau sy'n bwysig.

**Gwnaethom gais o'r blaen a chael cymhorthdal, allwn ni wneud cais yr eildro?**

Ar bob cyfrif. Pe byddech yn ailgyflwyno cais fe hoffem weld bod yna **ddatblygu** ar y cais cynt. Wedi'r cwbl 'Rhaglen Datblygu' yw enw'r rhaglen.

**Pa bryd y gallwn wneud cais?**

Unrhyw bryd. Wedi derbyn eich cais yn Nhŷ John Penri, bydd yn cael ei yrru i aelodau'r Panel Dyfarnu ac yna fe ddylech gael gwybod os derbyniwyd y cais ai peidio o fewn tair wythnos ar yr hwyraf.

**Beth wedyn?**

Os bu'r cais yn llwyddiannus gallwch barhau â'r prosiect. Byddem yn disgwyl ichi gydnabod ichi dderbyn nawdd y Rhaglen Datblygu ar unrhyw ddogfennau ynglŷn â'r prosiect a disgwylir adroddiad byr am y prosiect ar ei ddiwedd.

Edrychwn ymlaen at dderbyn ceisiadau a byddem yn barod i ateb unrhyw gwestiwn sy'n codi gennych cyn cychwyn os dymunwch.

**Ifan Alun**

## CYSTADLAETHAU'R YSGOLION SUL 2016

### CWPAN DENMAN

**Rhodd Cyfundeb Lerpwl**

**Cywaith gweledol (poster, ffotograff, llun neu waith celf arall, yn mesur dim mwy na 4x3 troedfedd) ar y thema, 'Beibl i Bawb o Bobl y Byd'**

**TLYSAU CYFUNDEB LERPWL**

**Cystadlaethau siarad cyhoeddus i oed Blwyddyn 7-9 a 10-13.**

**Testun: 'Eglwys Crist y Ffoadur'**

**Y Cywaith ac/neu enwau'r cystadleuwyr ar gyfer y siarad cyhoeddus i gyrraedd**

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe, Abertawe, SA7 0AJ**

**erbyn**

**Dydd Gwener, 27 Mai os gwelwch yn dda**

## CYFARFOD RHWYDWAITH MERCHED

**Festri Capel Seion, Baker Street, Aberystwyth, nos Fercher, Mai 11.**

Lluniaeth ysgafn am 6.00 a'r cyfarfod am 6.30.

Byddwn yn trafod thema'r flwyddyn hon, ac yn gosod thema ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Os hoffech mwy o fanylion, cysylltwch â'r swyddfa yn Nhŷ John Penri, neu â Rhodri ar 01792 795888

## Penderfyniadau

### Cyfarfodydd Blynyddol 2016

Os oes cyfundebau, eglwysi neu aelodau personol o'r Undeb sy'n dymuno cyflwyno penderfyniad i Gynhadledd y Cyfarfodydd Blynyddol yn Llanuwchllyn ym mis Mehefin/ Gorffennaf, mae gofyn i gopi o'r penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe, Abertawe SA7 0AJ, erbyn dydd Gwener, 13 Mai 2016, os gwelwch yn dda.

**Geraint Tudur,**
**Ysgrifennydd Cyffredinol**

**EGLWYS ANNIBYNNOL BETHESDA, Y TYMBL**

Cynhelir

## CYFARFOD SEFYDLU

**Y Parchedig Gwyn Elfyn Lloyd Jones B.A.**

*yn Weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yn yr Eglwys uchod*

**Dydd Sadwrn, Mai 14eg, 2016 am 2.00 o'r gloch**

**Llywydd:**
**Y Parchedig Emyr Gwyn Evans B.D.**

**Pregethir gan y Parchedig Ddr. R. Alun Evans B.A., Ph.D.**

**Croeso cynnes i bawb**

Gweinir lluniaeth ysgafn wedi'r oedfa

# Barn Annibynnol

## Llyfr y Llyfrau

Llond dwrn o bregethwyr ein capel ni sy'n darllen o Feibl William Morgan mewn oedfaon bellach ac erbyn hyn mae'n swnio braidd yn *quaint* ac, i fod yn onest, ychydig yn ddigri os nad yn annealladwy. Er enghraifft: "Ac yr oedd chwegr Simon yn glaf o gryd blin: a hwy a atolygasant arno drosti hi." (Luc 4: 38) Faint o bobl yn ein cynulleidfaoedd heddiw fyddai'n deall hynny?

*Beibl William Morgan*

**Trysor Amhrisiadwy**

Mae'n anodd credu mai dyma'r unig fersiwn o'r Beibl cyflawn oedd gennym ddim ond 30 mlynedd yn ôl. Efallai ei fod yn syndod fod y Beibl Cymraeg Newydd wedi cael ei dderbyn gan fwyafrif mawr ein pregethwyr mor sydyn o ystyried eu bod, ar y cyfan, yn ddosbarth digon ceidwadol. Ond mae dipyn yn fwy dealladwy: "Yr oedd mam-yng-nghyfraith Simon yn dioddef dan dwymyn lem, a deisyfasant ar Iesu ar ei rhan." Ac erbyn hyn, mae gennym ni beibl.net: "Yno roedd mam-yng-nghyfraith Simon yn sâl iawn gyda gwres uchel. Dyma nhw'n gofyn i Iesu ei helpu hi." Os yw "cael y Beibl yn ein hiaith yn drysor amhrisiadwy" fel y nodir yn y llyfryn "Beth yw'r Beibl?" gan ymgyrch y Beibl Byw, dyma, yn sicr yw perl y cyfieithiadau. Mae'n siarad ein hiaith ni.

**Anghymreig**

Ond dydi pawb ddim yn hapus â beibl.net. Dywed rhai ei fod yn "anghymreig" a bod yr iaith yn "od". Mae'n rhyfedd meddwl ond mae'n bur debyg bod William Salesbury a William Morgan wedi wynebu yr un cyhuddiadau pan gyhoeddwyd eu cyfieithiadau nhw. Yn ôl y Bywgraffiadur Cymreig "Bu beirniadu llym ar gyfieithiadau Salesbury, ac ni chawsant nemor ddim croeso, am eu bod yn dryfrith o ffurfiau Lladinaidd a hynodion orgraffyddol eraill, ac, o'r herwydd, yn annealladwy i liaws mawr o'i gyfoeswyr." Er bod William Morgan yn ceisio defnyddio "iaith gyfoes, gyfarwydd a Chymroaidd" (BCN(D)), roedd yn hoff iawn o ddefnyddio'r frawddeg annormal – "A Duw a ddywedodd...", "A'r Iesu a wylodd..." yn hytrach na "Dywedodd Duw..." ac "Wylodd yr Iesu..." fel y byddai'r bobl yn siarad ar y pryd fel heddiw.

**Rhyfedd, od?**

Beth sydd yn "od" felly am beibl.net? Mae rhai pethau'n taro'n chwithig wrth ei ddarllen, fel y duedd i beidio â chynnwys yr "â" ar ôl "peidio" e.e. "Peidiwch rhoi'ch gobaith mewn lladrad" (Salm 62: 10) a'r duedd i ddweud "Dw i eisiau **" yn hytrach na "Mae eisiau ** arna i". Ond mae'r rhain yn bethau sydd wedi hen sefydlu yn ein hiaith lafar ac felly nid yn "anghymreig". Mewn rhai mannau, mae'r cywair yn ymddangos yn anghyson e.e. Salm 10, "Ti'n gwrando ar lais y rhai sy'n cael eu gorthrymu". Mae dechrau brawddeg â "Ti'n" yn hynod anffurfiol ond mae "gorthrymu" yn air ffurfiol. Wedyn yn "byddi'n stopio dynion meidrol rhag eu gormesu," mae "stopio" yn swnio'n chwithig gyda "meidrol" a "gormesu". Ond er ei fod mewn iaith anffurfiol, mae'n rhaid wrth rai termau lled dechnegol.

O ddefnyddio berfau cwmpasog er mwyn bod yn anffurfiol e.e. "Mae'n aros" yn hytrach nag "Erys", mae mwy o alw am y rhagenw ôl, e.e. "Bydd e'n was pwysig iawn i'r Arglwydd Dduw. Fydd e ddim yn yfed gwin nac unrhyw ddiod feddwol, …". Mae hyn yn gallu swnio'n od pan fydd gogleddwyr yn ei ddarllen ond mae Arfon Jones wedi nodi'n glir mai ei fwriad ef oedd i'r darllenydd addasu ffurfiau fel hyn i'w iaith ei hunan.

**Diflanasant**

Un peth sydd efallai yn "od" yw'r defnydd di-ben-draw o "dyma" i fynegi'r gorffennol wrth ddweud stori. Mae hwn yn gallu bod yn dechneg bach digon hwylus ac fe allwn i ddeall ei ddefnyddio i osgoi "-asants" diddiwedd, ond pan ellid defnyddio ffurfiau fel "canon nhw", "dywedon nhw", dwi'n ei weld braidd yn syrffedus e.e. "**Dyma nhw'n** cadw'r bechgyn yn fyw. **A dyma** brenin yr Aifft yn eu galw nhw eto, a gofyn "Beth dych chi'n wneud? Pam dych chi'n gadael i'r bechgyn fyw?" **A dyma'r** bydwragedd yn ateb, …" (Exodus 1)

Mae'r dyfyniad uchod yn dod â ni at yr un peth mwyaf "od" ac "anghymreig" yn beibl.net, sef y defnydd o "dyn" a "dych" am "ydyn/ŷn"/"ydych/ŷch". Mae'n debyg mai er budd dysgwyr y mae hyn ond go brin bod dysgwyr yn elwa o weld ffurfiau gwneud nad ydyn nhw'n cael eu dweud na'u hysgrifennu gan neb yn y byd go iawn! Dyma'r peth oedd yn achosi'r drafferth fwyaf i bobl wrth ddechrau darllen beibl.net yn gyhoeddus. Sut oedd eu dweud?!

Erbyn hyn, rwy'n meddwl fod pobl yn arfer. Wrth i fwy o ddefnydd gael ei wneud o beibl.net mewn gwasanaethau, mae pobl yn dod yn fwy hyderus ac yn ei addasu i'w hiaith naturiol nhw. Felly mae gennym dri chyfieithiad o'r Beibl cyflawn mewn print ac ar y we – pob un â'i ragoriaethau.

**Siân Roberts**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol)

**Gofalaeth Eglwysi Bethel Sgeti,**

**Trinity Abertawe,**

**Bethania a'r Tabernacl Treforys**

**Cyfarfod Sefydlu**

**Y Parchg Jill-Hailey Harries,**

**B.Th (Cym)**

yn Weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist

ar eglwysi

**BETHANIA a'r TABERNACL**

**Sadwrn, 14 Mai am 2pm**

yn y

**TABERNACL, TREFORYS**

Stryd Woodfield, SA6 8BR

*Croeso cynnes i bawb*

**Ymholiadau:** dgjohn@hotmail.co.uk

**01792 773507**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* aluntudur@btinternet.com**

*Golygyddion*
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**
**Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE**
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

**Alun Lenny**
**Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX**
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.org**

***Dalier Sylw!***
**Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.**

# Cristnogaeth - Ffydd Hanesyddol

## Siarad Trwy ei Fab

Yn y gorffennol pell roedd Duw wedi siarad gyda'n hynafiaid ni drwy'r proffwydi. Gwnaeth hyn bob yn dipyn ac mewn gwahanol ffyrdd. Ond bellach, yn y cyfnod olaf hwn, mae wedi siarad â ni drwy ei Fab. Mae Duw wedi dewis rhoi popeth sy'n bodoli yn eiddo iddo fe — yr un oedd gyda Duw yn gwneud y bydysawd. Hebreaid 1: 1-2 BDN

BEIBL BYW

Cyn dyfodiad Iesu roedd Duw yn cyfathrebu ac yn mynegi ei feddwl a'i ewyllys trwy'r Proffwydi a thrwy genedl Israel. Fel ym mhennod 29 o Eseia, dywedir yn y bedwaredd adnod,

"Dyma ei eiriau: "Fel hyn y dywed ARGLWYDD y Lluoedd, Duw Israel: 'At yr holl gaethglud a gaethgludais o Jerwsalem i Fabilon. (Jer 29:4).

Roedd Duw yn datguddio ei feddwl yn uniongyrchol i'r proffwydi, ond pan ddaeth Iesu fe ddaeth y datguddiad terfynol. O ganlyniad nid oes dim i'w ychwanegu at y datguddiad hwn. Y mae popeth angenrheidiol ar gyfer caru Duw a charu cyd-ddyn ac iachawdwriaeth wedi eu mynegi yn Iesu. Felly, o ganlyniad, y mae unrhyw beth sy'n honni bod yn ddatguddiad newydd sy'n ychwanegu at y datguddiad yn Iesu yn anghywir. (Wrth gwrs gall ein mynegiant o'r gwirioneddau hyn a'r dull y cymhwyswn hwy amrywio o gyfnod i gyfnod). Mae adnodau i'r cyfeiriad hwn yn y Beibl e.e.,
"Yr wyf fi'n rhybuddio pob un sy'n clywed geiriau proffwydoliaeth y llyfr hwn: os ychwanega unrhyw un ddim atynt, fe ychwanega Duw iddo yntau y plâu sydd wedi eu hysgrifennu yn y llyfr hwn." (Dat. 22:18)

## Islam a Mormoniaeth

Peth pwysig i'w gadw mewn cof yw bod Cristnogaeth yn seiliedig ar berson hanesyddol a fu'n bodoli mewn amser penodol, ac nid yn ddatguddiad dirgel i unigolyn. Mae hyn o reidrwydd yn cryfhau gwirionedd y ffydd Gristnogol gan fod prif elfennau Cristnogaeth yn agored i ymchwiliad hanesyddol. Mae hyn yn wahanol i grefyddau eraill. Cymerwch Islam. Dywed y grefydd hon fod Allah wedi trosglwyddo holl eiriau'r Corân i Mohamed trwy'r angel Gabriel dros gyfnod o 23 o flynyddoedd. Yr oedd Mohamed yn dysgu'r geiriau ar ei gof ac yna yn eu dysgu i eraill. Hynny yw, fe roddwyd y Corân yn ei gyfanrwydd fel y mae yn ddirgel i un person. O ganlyniad nid oes seiliau hanesyddol y gellir eu harchwilio o fewn i destun y Corân. Un ai rydych yn credu mai hwn yn ei gyfanrwydd yw gair perffaith Allah neu nid ydych. Nid oes modd profi nac ymchwilio yn hanesyddol. Mae'r un peth yn wir gyda hanes rhyfedd dechreuadau Mormoniaeth. Dywedant hwy mai proffwyd olaf Duw oedd Moroni a'i fod ef wedi cyfansoddi ysgrifau a'u cuddio mewn mynydd wrth ymyl lle mae Efrog Newydd nawr. Ym 1826 dychwelodd Moroni fel angel gan ddangos i ddyn o'r enw Joseph Smith lle yr oedd yr ysgrifau, a'i gynorthwyo i'w cyfieithu trwy roi pâr arbennig o sbectol iddo. Dyma o lle daw "The Book of Mormons." Gwnaeth Smith y gwaith hwn yn ddirgel heb ddangos i neb ac wedi iddo orffen diflannodd yr ysgrifau a'r sbectol. Felly, nid oes seiliau hanesyddol i Formoniaeth y gellir eu harchwilio. Rhaid cymryd gair un dyn, sef Joseph Smith. Ei sail yw datguddiad uniongyrchol i unigolyn yn y dirgel. Ac wrth gwrs nid oes gan Fwdïaeth na Hindwiaeth seiliau hanesyddol fel y cyfryw y gellir eu holrhain fel man cychwyn.




## Cristnogaeth yn Unigryw

Mae hyn mor wahanol i Gristnogaeth. Y mae prif ddigwyddiadau Cristnogaeth yn ddigwyddiadau hanesyddol, cyhoeddus a thorfol lle'r oedd pobl eraill ar wahân i'r awdur yn dystion. Meddyliwch am weinidogaeth gyhoeddus yr Iesu. Meddyliwch am ei groeshoeliad cyhoeddus, meddyliwch am yr atgyfodiad a'i ymddangosiadau cyhoeddus. Nid gwybodaeth ddirgel yn cael ei throsglwyddo yn uniongyrchol gan Dduw i unigolyn sydd yma, ond digwyddiadau hanesyddol, cyhoeddus. Nid un tyst oedd yno ond degau, cannoedd ac weithiau miloedd. Mae hyn yn gwneud y ffydd Gristnogol yn agored iawn i gael ei thanseilio yn llwyr pe bai yn ffug. A dyma rywbeth nad yw anghredinwyr yn barod i'w gydnabod, oherwydd rhoddant Gristnogaeth yn yr un cwch a chredoau eraill gan ddweud mai ffrwyth dychymyg yn unig ydyw. Nid yw hyn yn ffeithiol gywir.

## Meddwl am Funud

Ychydig yn ôl roedd Ioan Talfryn yn gwneud Munud i Feddwl ar BBC Radio Cymru. Cyfeiriodd at ei hoff ffilm dros gyfnod y Nadolig sef y ffilm atheistiaidd Hogfather. Dadleuai yn ddigon doniol mai canlyniad esblygiad di-Dduw yw dychymyg ar gred mewn Duw a phethau eraill cyffelyb fel enaid, nefoedd, tylwyth teg a Phobl y Cwm. Gwn fod eraill o'r un safbwynt ag ef. Yr anhawster mawr gyda'r math yma o osodiadau yw yr anwybyddir yn llwyr y gwirionedd moel fod Cristnogaeth yn seiliedig ar ffeithiau a pherson diriaethol oedd yn bodoli yn amseryddol a hanesyddol. Dyma pam ei bod mor bwysig deall fod Duw wedi siarad gyda ni yn y dyddiau olaf hyn mewn Mab, sef Iesu.

# Beibl.net i blant Bancyfelin

*Y Parchg Rhodri Glyn Thomas yn cyflwyno copïau o beibl.net i blant Ysgol Sul Gibeon, Bancyfelin fel rhan o ddathliadau Blwyddyn y Beibl Byw.*